

CYNGOR CYMDEITHAS BOTWNNOG

Adroddiad o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd **Nos Lun**, 11eg Mawrth, 2019, yn Ffestri Capel Rhydbach, Botwnnog, o 7.30 p.m. hyd 8.05 p.m.

Presennol: Y Cyngorydd Glenys Williams (Cadeirydd)

Y Cyngorydd Glyn Roberts (Is-Gadeirydd)

Y Cynghorwyr Dylan Parry Jones, Carys E. Williams, Siôn Williams

Y Cyngorydd Gareth Williams (Y Cyngorydd Sir)

Ymddiheuriadau: Y Cynghorwyr David Brunelli, Carys H. Evans, Gwenan Griffith, Ifor Owen, Michael Strain

107. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod.

108. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad buddiant personol.

109. CADARNHAU COFNODION

Cyflwynwyd, cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion y Cyngor 11eg Chwefror, 2019. (Cynigiwyd gan Y Cyngorydd Glyn Roberts ac eiliwyd gan Y Cyngorydd Dylan Parry Jones).

Materion yn Codi

(a) Eitem 9 Cadarnhau Cofnodion – (a) Eitem 87 – Materion Iechyd

Adroddodd y Clarc iddi gysylltu a Mr. Dave Shaw, Rheolwr Meddygfa Rhydbach, Botwnnog ynglyn a'r diffyg swm pan fyddai enw yn dod i fyny ar y sgrin i weld Meddyg/Nyrs. Eglurodd fod y swm wedi ei roi i lawr gan fod hysbyseb ynglyn a'r defnydd o antibiotig yn uchel ac os y rhoddir y gloch yn uwch byddai'n anioddefol i'r cleifion. Addawodd y byddai'n ader y sefyllfa maes o law.

Penderfynwyd derbyn yr adroddiad.

(b) Eitem 99 – Materion Ffyrdd a Llwybrau

Derbyniwyd ymateb gan Beiriannydd Ardal Dwyfor, Cyngor Gwynedd, ynglyn a materion anfonwyd i'w sylw yn dilyn cyfarfod mis Chwefror fel a ganlyn:

1) "Lon Trefaes Fawr

Mae'r ffordd wedi ei chlytio dros dro. Gyda gobaith bydd rhan waethaf o'r ffordd yma yn cael ei ail-wynebu cyn diwedd y flwyddyn ariannol. Mae cyllideb wedi ei neilltuo ar gyfer hyn.

2) Capel Salem, Sarn

Mae'r twll wedi derbyn sylw.

3) Liverpool House a 'Refail, Sarn
Mae'r tyllau wedi derbyn sylw

4) Trafferthion Mynediad

'Rwyf wedi cyfeirio eich sylw am y lori 'artic' yn mynd yn sownd i sylw'r Gwasanaeth Trafnidiaeth yng Nghaernarfon, gyda chais i chwi dderbyn ymateb uniongyrchol.

Penderfynwyd derbyn yr ymateb ond tynnu sylw fod y twll ger Liverpool House/Caer, Sarn, yn dal heb ei lenwi.

110. CEISIADAU CYNLLUNIO

Cyflwynwyd y ceisiadau a ganlyn:

- (a) Cais C19/0188/32/LL – dymchwel ty presennol a chodi ty newydd – Bwthyn Briallen, Bryncroes.
- (b) Cais C19/0204/32/LL – adeiladu sied amaethyddol ar gyfer cadw defaid – Fantol, Rhoshirwaun.
- (c) Cais C19/0215/32/LL – diwgio amod 2 o'r caniatad cynllunio C08D/0349/32/LL er mwyn adeiladu'r ty yn unol a'r cynlluniau diwygiedig – plot 4 rhan o gae 0008, Botwnnog. LL53 8RA.

Penderfynwyd cefnogi'r ceisiadau.

111. MATERION FFYRDD A LLWYBRAU

Penderfynwyd anfon y materion a ganlyn ymlaen i sylw'r Peiriannydd Rhanbarthol:

- 1) Twll angen sylw ger Manchester House, Sarn.
- 2) Twll ger Fferm Ty Mawr Capel, Bryncroes angen sylw – wedi mynd yn ddyfnach ac yn berygl.
- 3) Y draen dros y ffordd i dy Ty Mawr Capel, Bryncroes, angen sylw gan fod y ffordd yn gorlifo pan mae'n bwrw'n drwm.

Yn y cyswllt hwn adroddwyd fel a ganlyn:

- (a) Gwaith wedi ei raglennu ar gyfer mis Mawrth, 2019 – draeniad ger Pen y Bont, Penygroeslon.
- (b) Lon Ty Engan, Bryncros – gwaith ailwynebu wedi ei raglennu i gychwyn ar 11eg Mawrth am ddeg diwrnod gwaith.
- (c) Wal 'Sgody, Bryncroes – adroddwyd ar ymateb Osian Richards, Uwch Beiriannydd Technegol, Cyngor Gwynedd, ynglyn a chyflwr peryglus Wal 'Sglody, Bryncroes. Derbyniwyd ymateb nad oedd perygl o gwbl ynglyn a'r wal ond wedi edrych ar y plan oedd ynghlwm a'r atebiad sylwyd mai at y bont ym mhentref Bryncroes 'roedd y cyfeirio. Anfonwyd yn ol at y Swyddog gan dynnu ei sylw at hyn ac mai at bont 'Sglody 'roedd y Cyngor yn cyfeirio ac fod y Cyngor yn poeni am ei chyflwr. Yn hwyrach yr un dydd derbyniwyd e-bost pellach gan y Swyddog yn nodi fod y wal wedi cael i rhoi ar "flaen y rhestr waith ac 'rwyf yn gobeithio fydd yn gwaith yn dechrau tua diwedd y mis neu ddechrau mis Ebrill."

Penderfynwyd derbyn y wybodaeth

112. MATERION IECHYD

Nid oedd unrhyw fater wedi dod i sylw'r Cyngor i'w anfon ymlaen at Gyngor Iechyd Cymunedd Gogledd Cymru.

113. AWDURDOD I DALU

Penderfynwyd awdurdodi'r taliadau a ganlyn ac hefyd gan nad oedd Y Cyngorydd David Brunelli ac Ifor Owen yn bresennol fod hawl i'r Clarc ynghyd a'r Cadeirydd arwyddo'r sieciau heno er fod dwy o'r sieciau yn daladwy i'r Clarc (Nodyn – unrhyw ddau o'r canlynol sydd a hawl i arwyddo sieciau'r Cyngor – Y Cyngorwyr David Brunelli, Ifor Owen, Glenys Williams a'r Clarc).

Hurio Ystafell Bwyllgor am y flwyddyn 2017/18 a 2018/19:

Bryncroes (6 gwaith)	£60.00
Hebron (4 gwaith)	£40.00
Neuadd Goffa Sarn (7 gwaith)	£70.00
Festri Capel Rhydbach, Botwnnog (6 gwaith)	£60.00
*Y Clarc	£372.55
HMRC	£ 93.20
*Y Clarc – costau postio	£ 17.96
Arfon Parry, Cradur.com – We-letya blynyddol	£ 28.00

Nodyn – ymneilltuodd y Clarc pan yn trafod y ddwy eitem a nodir gyda *.

Cyflwynodd y daenlen i fyny i ddyddiad y Cyngor yn dangos mai £6,345.55 oedd yn weddill yn y cyfrif cyfredol yn dilyn gwariant mis Chwefror gan na fu unrhyw awdurdod i dalu yn ystod y mis.
Nodwyd y wybodaeth.

114. BARBIO TIROEDD Y CYNGOR

Derbyniwyd un tendr yn unig ac agorwyd y cyfryw gan y Cadeirydd yn y cyfarfod. Tendr gan J.A. Pozzi. Ger Llwyn, Rhydyclafdy, oedd fel a ganlyn:

1. Barbio Mynwent y Cyngor yn Llandegwning (y fynwent newydd lle mae ond ychydig o feddau yn y pen draw) ; y tyfiant i'w dorri bob tair wythnos yn ystod y tymor o fis Ebrill hyd Hydref, 2019, a'r gwellt i'w glirio oddi yno – **cyfanswm am wneud y gwaith yn £510 + TAW.**
2. Barbio Comin Bryncroes yn unig (y tir sydd islaw tai'r Cyngor) am gyfnod o saith mis (Ebrill i fis Hydref, 2018); y tyfiant i'w dorri bob tair wythnos yn ystod y tymor, a'r gwellt i'w glirio oddi yno – **cyfanswm am wneud y gwaith yn £900 + TAW.**
3. Pris yr awr am farbio llwybrau cyhoeddus o fewn tiriogaeth y Cyngor ac hefyd unrhyw waith achlysurol fel bydd y gofyn - **£15.00 yr awr + TAW.**

Penderfynwyd derbyn y tendr.

